**GORCHYMYN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A LLWYTHO A PHARCIO) (CYDGRYNHOI) 2024**
**GORCHYMYN DIWYGIO Rhif [ ] 202-**

**RHODDIR RHYBUDD DRWY HYN** bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Cyngor"), fel Awdurdod Priffyrdd Porthcawl, yn bwriadu gwneud y Gorchymyn canlynol trwy arfer ei bwerau o dan Adrannau 1(1), 2(1) i (2), 4,124(1) a Rhan IV Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (Deddf 1984) fel y'i diwygiwyd, Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu ac yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, sydd yn diwygio'r cyfyngiadau canlynol yng NGORCHYMYN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A LLWYTHO A PHARCIO) (CYDGRYNHOI) 2024 **("Y Gorchymyn Cydgrynhoi")**, trwy ddirymu'r Cynllun Gorchymyn **L74** dyddiedig 29.11.2024 a mewnosod y Cynllun Gorchymyn diwygiedig **L74 DIW 1**, sydd yn cyflwyno cyfyngiad gwahardd aros, llwytho a dadlwytho ar unrhyw adeg fel y nodir yn Atodlen 1 ac Atodlen 2 isod.

Rhaid cyflwyno gwrthwynebiadau neu sylwadau am y cynigion, ynghyd â'r sail y maent yn cael eu gwneud arni,
yn ysgrifenedig at y llofnodwr isod yn y cyfeiriad isod neu drwy e-bost at
traffictransportation@bridgend.gov.uk, erbyn **26/11/2025.**

Mae copi o'r dogfennau a adneuwyd, gan gynnwys Gorchymyn a Chynlluniau arfaethedig y Cyngor a Datganiad o'i resymau dros wneud y Gorchymyn, ar gael trwy gysylltu naill ai â traffictransportation@bridgend.gov.uk neu ffonio'r Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid Ffôn: 01656 646363 (dyfynnwch y cyfeirnod TRA001-1527) neu o'r Dderbynfa Ddinesig yn y cyfeiriad a roddir isod yn ystod oriau swyddfa, neu gellir eu gweld ar-lein yn:
https://www.penybontarogwr.gov.uk/cyngor/hysbysiadau-cyfreithiol-a-gorchmynion/.

Os byddwch yn cael anhawster wrth ymateb yn ysgrifenedig neu os oes angen yr hysbysiad hwn arnoch mewn fformat arall, megis print mwy, sain, braille neu ffacs, cysylltwch â'r Is-adran Gwasanaethau Cyfreithiol yn y cyfeiriad isod neu ffoniwch y Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 01656 643643 cyfeirnod cyfreithiol TRA001-1527. Sylwer y gall y Cyngor ystyried yr holl sylwadau sy'n dod i law yn gyhoeddus ac y gallai sylwedd unrhyw sylw (ynghyd ag enw a chyfeiriad y person sy'n ei wneud) fod ar gael i'w harchwilio'n gyhoeddus.

**ATODLEN 1**
**DIRYMU**

**1. DIRYMU CYFYNGIAD GWAHARDD AROS AR UNRHYW ADEG**
**Old Station Road, Porthcawl**

(i) Ar ochr y gogledd o bwynt tua 5.5 metr (6 llath) i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd ag ochr orllewinol Station Close i gyfeiriad y gogledd-orllewin am oddeutu 9.5 metr (10 llath).

(ii) Ar ochr y gogledd o bwynt tua 34 metr (37 llath) i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd ag ochr orllewinol Station Close i gyfeiriad y gorllewin ac yna'r de-orllewin am oddeutu 19 metr (21 llath).

**2. DIRYMU CYFYNGIAD AROS CYFYNGEDIG**
**(AROS AM UCHAFSWM O 1 AWR DIM DYCHWELYD O FEWN UN AWR-DYDD LLUN I DDYDD SADWRN) (RHWNG 8AM A 6PM)**
**Old Station Road, Porthcawl**

(i) Ar ochr y gogledd o bwynt tua 15 metr (16 llath) i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd ag ochr orllewinol Station Close i gyfeiriad y gogledd-orllewin am oddeutu 19 metr (21 llath).

## ATODLEN 2

**1. CYFLWYNO CYFYNGIAD GWAHARDD AROS AR UNRHYW ADEG**
**Old Station Road, Porthcawl**

(i) Ar ochr y gogledd o bwynt tua 17.5 metr (19 llath) i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd ag ochr orllewinol Station Close i gyfeiriad y gogledd-orllewin am oddeutu 20 metr (22 llath).

(ii) Ar ochr y gogledd o bwynt tua 47.5 metr (51 llath) i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd ag ochr orllewinol Station Close i gyfeiriad y gorllewin ac yna'r de-orllewin am oddeutu 5 metr (5 llath).

**2. CYFLWYNO CYFYNGIAD AROS CYFYNGEDIG**
**(AROS AM UCHAFSWM O 1 AWR DIM DYCHWELYD O FEWN UN AWR-DYDD LLUN I DDYDD SADWRN) (RHWNG 8AM A 6PM)**
**Old Station Road, Porthcawl**

(i) Ar ochr y gogledd o bwynt tua 5.5 metr (6 llath) i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd ag ochr orllewinol Station Close i gyfeiriad y gogledd-orllewin am oddeutu 12 metr (13 llath).
(ii) Ar ochr y gogledd o bwynt tua 37.5 metr (41 llath) i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd ag ochr orllewinol Station Close i gyfeiriad y de-orllewin am oddeutu 10 metr (11 llath).

**Dyddiedig: 30/10/2025**
K Watson, Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol – Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB.
K Watson, Chief Officer Legal and Regulatory Services, Human Resources and Corporate Policy – Chief Executive's Directorate, Bridgend County Borough Council, Civic Offices, Angel Street, Bridgend CF31 4WB.

TRA001-1527 N1